

Bwriwch olwg fanylach ar... REDYN

Mae rhedyn yn blanhigion hynafol a chanfuwyd rhedyn ffosil mewn creigiau dros 300 miliwn o flynyddoedd oed. Helpodd rhedyn oedd wedi gwywo i wneud glo ac olew - filiynau o flynyddoedd yn ôl fe'u claddwyd dan ddaear ac yn raddol bach fe'u trowyd yn lo o dan bwysedd enfawr y Ddaear.

Yr enw ar ddail rhedyn yw ffrondau. Pan fo'r rhain yn ymddangos gyntaf maen nhw ar ffurf torch dynn, ond gydag amser maen nhw'n sythu'n raddol. Yn yr haf edrychwch ar ochr isaf ffrond rhedyn - yn y smotiau brown y mae'r sborau, ac o'r rheiny y mae planhigion newydd yn tyfu maes o law.

- Mae rhai rhedyn yn fach iawn, a'u dail mwsoglyd yn ddim ond 1 cm o hyd, ond gall coeden redyn drofannol dyfu cyn uched â 25 metr.
- Gall rhedyn amsugno metelau trwm o'r awyr a'r pridd. Gellir eu defnyddio i lanhau ardaloedd llygredig.
- Gall un rhywogaeth o redyn – rhedyn ungoes – fygu llethrau brynïau. Erbyn hyn mae rhedyn ungoes yn cael ei droi'n gompost a thanwydd i danau – sy'n helpu bywyd gwyllt ac economïau lleol.
- Mae llawer o redyn o fforestydd glaw trofannol yn tyfu ar blanhigion eraill yn unig. Maen nhw'n hel dŵr o'r awyr laith neu o lawiad – yr enw arny'n nhw yw epiffytau.
- Yn y gorrffennol roedd sborau rhai mathau o redyn yn darparu powdr fflachio mewn ffotograffiaeth gynnar, gan y gellid eu tanio'n hawdd.



Ffrond rhedynen



Ffrond yn dorch



Sori â sborau

Luniau © British Pteridological Society

Defnyddiwch y canllaw hwn i ddysgu mwy am redyn a gwefan y Cyngor i gael gwybod mwy am fywyd gwyllt rhyfeddol Sir Gaerfyrddin.



Partneriaeth Bioamrywiaeth Sir Gaerfyrddin
Carmarthenshire Biodiversity Partnership

**Cyfoeth
Naturiol
Cymru
Natural
Resources
Wales**

**Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire
County Council**